

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMDEITHAS TREARDDUR A GYNHALIWDYD YN NEUADD BENTREF BAE TREARDDUR 26 EBRILL 2016 AM 6.30 O'R GLOCH.

PRESENNOL:

Cynghorydd Susan Conrad-Smith - Cadeirydd.

Cynghorwyr Alan Benson, Anwen McCann, Cyndy McDermott, Stephen McGee, Geoff McGinn, Eric Roberts, Dafydd Rhys Thomas J.P a E. Gwynfor Williams.

Hefyd yn bresennol : Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes.

CYFLWYNIADAU

Mr Dewi Lloyd o Adran Economaidd, Cyngor Sir Ynys Môn - cafwyd gwybod ganddo sut mae'r "Cyllid Adfywio" yn cael ei wario yn yr ardal. Soniodd hefyd am ffynhonnellau eraill o arian a allai fod ar gael i'r ardal a'r gwahanol brosiectau a awgrymwyd hyd yn hyn.

Cynghorydd John Arwel Roberts - Cyngor Sir Ynys Môn - Mynychodd y cyfarfod i roi gwybodaeth a siarad am faterion oedd yn ymwneud â throsglwyddiad y Safle Hamdden.

1. **YMDDIHEURIADAU:** Cynghorwyr J. Abbott a Bill Rowlands

2. COFNODION CYFARFOD 29 MAWRTH 2016

Penderfynwyd: Derbyn a chadarnhau fod y cofnodion yn gywir.

3. DATGANIAD O DDIDDORDEB:

Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas - eitem 4.3

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

4.1 **Darparu biniau ym Mhorth y Pwll a Phorth y Post** - dim ymateb gan y Cyngor Sir.

Penderfynwyd: Eu hatgoffa unwaith eto.

4.2 **Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned** - Cynghorwyr Anwen McCann ac Alan Benson i fynychu'r cyfarfod ar 28.4.2016.

4.3 **Lle glas ar Lon Penrallt** - Cafwyd cydnabyddiaeth ond dim ymateb ffurfiol gan y Cyngor Sir

Penderfynwyd: I ofyn am ddiweddariad .

4.4 **Prinder biniau ar draeth Bae Trearddur** - Cafwyd cydnabyddiaeth ond dim ymateb ffurfiol gan y Cyngor Sir

Penderfynwyd: I ofyn am ddiweddariad .

5. GOHEBIAETH

5.1 **Model Rheoliadau Ariannol Newydd** - Llythyr gan Cynulliad Cymru yn cyflwyno

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMDEITHAS TREARDDUR A GYNHALIWDYD YN NEUADD BENTREF BAE TREARDDUR 26 EBRILL 2016 AM 6.30 O'R GLOCH.

Rheoliadau Ariannol newydd.

Penderfynwyd: Diweddarau'r ddogfen bresennol a chylchredeg copïau i'w trafod yn y cyfarfod nesaf.

5.2. Trosglwyddo Asedau Cymunedol yng Nghymru - Llythyr oddi wrth y Cynulliad gydag argraffiad diwygiedig o'r canllaw.

Cyflwynwyd a nodwyd.

5.3 Fframwaith Moesegol Llywodraeth Leol - Llythyr gan y Cynulliad yn cyflwyno Cod Ymddygiad newydd a ddylai gael ei fabwysiadu erbyn 1 Gorffennaf 2016.

Penderfynwyd: Paratoi hwn erbyn y cyfarfod nesaf.

5.4 Gwasgaru Lluch: E-bost gan ŵr yn gofyn am ganiatâd i wasgaru lluch ei ddiweddar wraig ar draeth Bae Trearddur.

Penderfynwyd: Dim gwrthwynebiad i hyn.

6. SAFLE HAMDDEN:

6.1 Cyflwynwyd: Llythyr dyddiedig 5 Ebrill 2016 gan CSYM yn hysbysu'r Cyngor Cymdeithas o'i bwriad i gysylltu â'r Perchennog i drafod ildio'r brydles os na fyddent yn derbyn y telerau a nodir yn eu llythyr o 22 Mawrth 2016 (h.y. gwneud taliad o £50,000 dros gyfnod o 10 mlynedd o 2017/18 a.y.b.) erbyn hanner dydd ar 13 Mai 2016.

Penderfynwyd ymateb: "Yn amodol ar gytundeb a heb ragfarn" a chynnig talu £25,000 dros 15 mlynedd.

7. CYFRANIADAU

Dim ceisiadau.

8. Adroddiadau'r Cynghorwyr

8.1 Cynghorydd Sir Dafydd Rhys Thomas - Dywedodd ei fod wedi cael cyfarfod calonogol iawn gyda Mr Gary Doherty, Prif Weithredwr newydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

8.2 Cynghorydd Stephen Magee - Mynegodd ei ddiolch i'r cynghorwyr hynny a fu'n ymdrechu i geisio sicrhau'r Safle Hamdden ym Mae Trearddur.

8.3 Cynghorydd Anwen Mcann:

Cyfarfod Un Llais Cymru 7.4.2016. Yn ôl Rheolwr Rhanbarthol BT bydd 96 % o gartrefi a busnesau yn gallu cysylltu â band llydan ffibr cyflym erbyn mis Mehefin 2017. Os nad yw'r band eang cyflym ar gael dylai gymuned ddod at ei gilydd a thalu

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMDEITHAS TREARDDUR A GYNHALIWDYD YN NEUADD BENTREF BAE TREARDDUR 26 EBRILL 2016 AM 6.30 O'R GLOCH.

i gysylltu â'r " Cynllun Mynediad i Fand Eang Cymru"

8.4 Cynghorydd Anwen Mcann:

Disgrifiwyd y cyfarfod A.H.N.E yng Ngwesty Bae Trearddur ar 13.4.2016 fel sesiwn ar sut y gallai'r cyfan o Ynys Cybi weithio gyda'i gilydd i hyrwyddo'r ynys fel un ardal ar gyfer twristiaeth.

9. CYLLID, GWEINYDDU A RHEOLI RISG

9.1 Cyfrifon Terfynol ar gyfer 2015/2016

Cyflwynwyd: y cyfrif blynyddol hyd at 31 Mawrth 2016 ynghyd ag adroddiad yr Archwilydd Mewnol .

Penderfynwyd: cadarnhau cywirdeb y cyfrifon ac awdurdodi'r Cadeirydd i arwyddo yr Adroddiad cyn ei chyflwyno i'r archwilwyr allanol.

10. TALIADAU

Penderfynwyd: Cadarnhau a thalu'r canlynol:-

1394	H.B. Rowlands	Costau teithio (Mawrth)	£16.20
1395	E. M. Owen	Cyflog	£340.22
1396	G. D. Evans	Gratuity .	£2046.29
1397	H.M.R.C	Treth Incwm	£836.62
1398	Owen Sutton	Wefan	£605.00
1399	A. McCann	Costau teithio	£14.40

11. UNRHYW FATER BRYD ARALL - dim

12. PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO

12.1 46C427K/TR/EIA/ECON - Leisure Village at Penrhos Coastal Park - wedi ei ganiatau.

13. CEISIADAU CYNLLUNIO

13.1 46C486/ ENF/LUC - Tan y Graig, Trearddur Bay

Cais am Dystysgrif Datblygiad Cyfreithlon ar gyfer cadw bloc stabl ar dir gyferbyn â Tan y Graig - **Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad.

13.2 46C147G/ENF - Tan y Graig, Trearddur Bay

Cais ôl-weithredol i gadw'r sied fel storfa, swyddfa breifat, toiledau a chawodydd **Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad.

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMDEITHAS TREARDDUR A GYNHALIWDYD YN NEUADD BENTREF BAE TREARDDUR 26 EBRILL 2016 AM 6.30 O'R GLOCH.

13.3 46C428B - Goferydd, South Stack Road.

Cais llawn ar gyfer cynlluniau diwygiedig (cais 46C428A) i addasu ac ehangu'r adeilad presennol. **Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad.

13.4 46C126A/ENF - Heatherlea, Penrallt Road, Trearddur Bay.

Cais ar gyfer newid defnydd yr adeilad allanol i lety gwyliau un ystafell wely. **Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad.

13.5 46C397N - Llan Tropez, Lon Penrhingarw Road, Bae Trearddur Bay.

Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu ynghyd a chodi modurdy (Cynllun diwygiedig) **Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad.

13.6 46C218D - The Old Abbey, Ravenspoint Road, Bae Trearddur Bay

Cais llawn i newid defnydd anecs i annedd. **Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad.

14. CYFARFOD NESAF: 31 MAI 2016.